

Gwybodaeth am yr HCPC

Mae Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn rheoleiddiwr statudol ar gyfer 15 o broffesiynau iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig, a'i rôl yw amddiffyn y cyhoedd.

Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 ydy'r sylfaen ar gyfer ein rôl a'n cylch gwaith. Rydym yn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, gan reoleiddio dros 300,000 o unigolion cofrestredig ar draws 15 proffesiwn gwahanol drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ymarfer gweithwyr proffesiynol;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau er mwyn cofrestru gyda ni;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol, sef yr unigolion cofrestredig, sydd yn bodloni ein safonau;
- gweithredu os nad ydy gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr yn bodloni ein safonau;
- ac atal ymarferwyr nad ydynt yn gofrestrdig rhag defnyddio teitlau proffesiynol a ddiogelir

Y 15 proffesiwn iechyd a gofal yr ydym yn eu rheoleiddio ydy:

- Therapyddion celf
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion/podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawfeddygol
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetwyr/orthotyddion
- Radiograffwyr
- Therapyddion iaith a lleferydd

Safonau'r Gymraeg

Y llynedd, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg gyfres newydd o Safonau'r Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr, gan ddisodli ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

Ers 6 Rhagfyr 2023, mae'n ofynnol i'r HCPC gydymffurfio â 66 o safonau sydd wedi'u rhannu'n bum categori. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflenwi gwasanaethau – yn ymwneud â'r modd y byddwn yn cyflenwi gwasanaethau i rai sydd yn cofrestru ac unigolion eraill
- Llundio polisi – yn ymwneud â'n prosesau mewnol yn llunio polisi a gwneud penderfyniadau
- Gweithredu – codi ymwybyddiaeth ac annog defnydd o'r Gymraeg yn fewnol
- Cadw cofnodion a materion atodol – sy'n gysylltiedig â'r gofynion ar gyfer adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg a sicrhau bod gennym system cwynion ar waith.

Cawsom estyniad ar gyfer dau o'r safonau, safon 6 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n gwasanaeth ffôn awtomatig ddarparu opsiynau yn Gymraeg) a gafodd derfyn amser estynedig hyd at 6 Mehefin 2024 ac rydym yn cydymffurfio ag ef erbyn hyn, a safon 20 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw rai o'n ffurflenni sy'n gysylltiedig â chofrestru fod ar gael yn Gymraeg) a gafodd derfyn amser estynedig hyd at 6 Rhagfyr 2025.

Cynnydd gyda'r Safonau

Fel rhan o Safonau'r Gymraeg, rydym yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn amlinellu'r ffordd rydym wedi bodloni'r safonau yr oedd dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chydymffurfio â'r safonau rhwng y dyddiad cydymffurfio ar 6 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024.

Mae rhwymedigaethau'r HCPC o ran y Gymraeg wedi bod ar waith ers 2011 pan wnaethom roi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith. Mae nifer o rwymedigaethau ein cynllun wedi'u hatgynhyrchu yn Safonau'r Gymraeg ac felly roedd gennym lefelau uchel o gydymffurfio o'r dyddiad cydymffurfio cychwynnol. Mae llawer o'n prosesau gwaith mewnol er mwyn bodloni'r safonau yn parhau fel yr oeddent, gyda'r Safonau yn yr achosion hynny yn cael eu hysgogi gan gais allanol – er enghraifft, aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni i ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg.

Mae rhai o'r Safonau, fodd bynnag, wedi ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn fwy rhagweithiol yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn cydymffurfio â Safon 6 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gael llinell ffôn gydag opsiynau wedi'u cyflwyno yn Gymraeg.

Ar gyfer safonau 1 – 7, mae gwaith wedi'i gyflawni gan y timau perthnasol i ychwanegu adrannau at ein templedi llythyrau er mwyn rhoi gwybod i bartion ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac y bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Yn ogystal, ers rhoi'r safonau ar waith, nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau ffôn gan unigolion a oedd yn dymuno cael ymdrin â'u galwad yn Gymraeg.

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd na digwyddiadau gennym yn ystod y cyfnod yr adroddir amdano sydd wedi'u cynnwys yn y safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd (safonau 8 – 13) nac unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus (safonau 14 – 15). Oherwydd nad oedd gennym ddigwyddiadau dan safonau 8-15, ni wnaethom

hysbysebu nac arddangos gwybodaeth ar gyfer cyfarfod yng Nghymru (safonau 16-18).

Nid oes gan HCPC swyddfa yng Nghymru ac mae'n fwyaf tebygol mai dim ond ar gyfer ein tîm cyswllt proffesiynol pan fydd ganddynt gyfarfodydd perthnasol yng Nghymru y byddai'r safonau hyn yn berthnasol.

Ar gyfer safonau 19 – 22, nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau i lenwi unrhyw rai o'n ffurflenni yn Gymraeg. Ar gyfer safon 20, rydym wedi derbyn estyniad hyd at 6 Rhagfyr 2025.

Wrth weithredu safonau 23 – 27 a 28 – 32, gwnaethom newidiadau i'n templedi er mwyn hysbysu unrhyw bartïon perthnasol o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ystod y cyfnod yr adroddir amdano, nid oes unrhyw bartïon wedi gwneud cais i gael gwrandao unrhyw ran o'u hachos yn Gymraeg.

Cyn rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith, roedd fersiwn Gymraeg ein gwefan yn cynnal ein cynnwys gwe yn Gymraeg a oedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Mae'r wybodaeth honno wedi canolbwyntio ar sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd gael gwybodaeth allweddol gan yr HCPC yn Gymraeg. Cafodd hyn ei adnewyddu ble roedd yn briodol, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei hychwanegu ynglŷn â'r Safonau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau 33 – 34 ac â safonau 35 – 36.

Ni chynhyrchwyd unrhyw hysbysiadau perthnasol yn ystod y cyfnod hwn a fyddai'n dod dan safonau 37 – 41.

Mae unrhyw bolisiau, ymchwil ac ymgynghoriadau wedi'u hasesu dan ein rhwymedigaethau yn safonau 42 – 50. Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni asesu polisiau o safbwynt eu heffaith ar y defnydd o'r Gymraeg a, lle bo hynny'n briodol, gwneud newidiadau er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg.

Rydym wedi asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion ac wedi cyflwyno modiwlau e-ddysgu a hyfforddiant er mwyn cryfhau dealltwriaeth ein staff o'r Gymraeg dan safonau 51 – 56. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn isod fel rhan o'n hadroddiad gorfodol.

Ar gyfer safonau 57 – 59, rydym wedi diweddarau ein polisiau adnoddau dynol a recriwtio er mwyn adlewyrchu ein cyfrifoldebau. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn isod fel rhan o'n hadroddiad gorfodol.

Rydym wedi rhoi proses ar waith er mwyn casglu'r wybodaeth dan safonau 60 – 67. Ceir manylion ynglŷn â hyn isod fel rhan o'n hadroddiad gorfodol.

Adroddiad Gorfodol dan safon 66

Fel rhan o'n rhwymedigaeth dan safon 66, yn ystod y cyfnod o'r dyddiad cydymffurfio hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gwnaethom gofnodi'r canlynol:

nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw (6 Rhagfyr 2023 –	0
--	---

6 Ebrill 2024) a oedd yn gysylltiedig â chydymffurfio â'r safonau	
nifer y cyflogeion sydd yn meddu ar sgiliau Cymraeg (yn y cyfnod rhwng 6 Rhagfyr 2023 – 6 Ebrill 2024)	<p>mae 3 chyflogai wedi dweud eu bod yn gwbl hyfedr yn y Gymraeg</p> <p>mae 6 yn deall Cymraeg ar lefel sylfaenol</p>
<p>nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 63) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	<p>0</p> <p>0</p> <p>0</p> <p>131</p>